**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 7FED MAI 2019 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Maer, Y Cynghorydd S. Williams
Cynghorydd Mrs Glenys Baker (Cadeirydd).
Cynghorwyr B. Barton, N. Bastow (Dirprwy Faer), D. Bradley, G. Campbell, Mrs M. Jones, C. Matthews, M. Worth.

**SWYDDOGION:** Mrs C. Earley, Clerc y Dref a Mrs R. Dudley, Clerc Cynorthwyol

**468/18 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a diolchodd i'r swyddogion a'r aelodau am eu cefnogaeth yn ystod ei thymor fel Cadeirydd. Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr C. Brockley, J. Pearson (Warden Coed) ag M. Tasker.

**469/18 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**470/18 Cofnodion:**

***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 9fed Ebrill 2019 yn adroddiad cywir yn amodol ar un mân newid yng Nghofnod 443/18(d) – newid 'Poundland' i 'PoundWorld'.***

**471/18 Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol:**

**a) Cofnod 443/18(a) – Caban Aros Bysiau Ffordd Hesketh:**

Rhoddodd y Clerc diweddariad i'r Pwyllgor gan ddweud wrth yr Aelodau nad oedd yr hawliad wedi cael ei setlo eto er y galwadau ffôn wythnosol yn gofyn am ddiweddariad. Fe nodwyd bod y swyddog sy'n ymdrin â'r achos wedi cael ei ddisodli a gofynnwyd i'r Clerc parhau gyda'i hymdrechion unwaith eto wythnos nesaf.

**b) Cofnod 443/18(c) – Seddau Ychwanegol yng Ngerddi'r Frenhines:**

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar i gadarnhau y cysylltwyd â'r trigolyn i ofyn a byddai'n hwylus i Aelod ymweld ag ef i drafod ei gais. Trafodwyd yr ymateb e-bost a dderbyniwyd ganddo. Fe nodwyd ei fod wedi gwneud ceisiadau eraill am gael fwy o seddau cymdeithasol yng Ngerddi'r Frenhines a thu allan i adeilad Coed Pella.

***Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Worth cysylltu â'r trigolyn i drafod ei gais ac adrodd yn ôl i'r Clerc.***

***Fe benderfynwyd ymhellach i roi awdurdod dirprwyol i'r Clerc cyflwyno unrhyw gais / geisiadau dilynol i GBS Conwy yn dilyn ei chysylltiad â'r Cynghorydd Worth.***

c) **Cofnod 450/18(f) - Sesiwn Galw i Mewn Safleoedd Strategol y Cynllun Datblygu Lleol:**

Nid oedd adroddiad ar gael am y sesiwn am nad oedd yr aelodau oedd yn bresennol wedi gallu mynychu'r sesiwn.

**ch) Cofnod 450/18(e) – Tir ger cyn Canolfan Ddinesig Bae Colwyn:**

Cyflwynodd y Clerc manylion am yr ymgynghoriad cyn cyflwyno cais parthed adeiladau allanol / tiroedd y cyn Canolfan Ddinesig (cyflwynwyd manylion yn y cyfarfod diwethaf). Fe nodwyd gan yr Aelodau bod y cynllun amlinellol yn cynnwys 19 o anheddau a throsi'r adeilad allanol i fod yn 9 o fflatiau. Datganwyd eu siom at y canran arfaethedig o dai fforddiadwy (oedd yn ymddangos i fod yn 3 annedd a 2 fflat).

***Penderfynwyd cyflwyno pryderon a gofyn i gymhareb fwy o dai fforddiadwy cael ei ystyried ar gyfer y safle hwn a fu ar un adeg mewn perchnogaeth gyhoeddus.***

**472/18 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):**

a) **Maes Chwarae Ysgol T. Gwynn Jones:**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth a gyflwynwyd gan y Clerc am y maes chwarae antur newydd sydd i gael ei agor ar y tir sy'n gyfagos ag Ysgol T. Gwynn Jones.

**b) IMAGINE Bae Colwyn**

(i) Derbyniwyd a nodwyd cofnodion drafft cyfarfod y Grŵp Llywio a gynhaliwyd ar 16eg Ebrill 2019.

(ii) Digwyddiadau: Rhoddodd y Clerc adroddiad ar lafar am ei chyfarfod gyda Helen Jackson. Roedd swyddog y Prosiect eisiau cymryd mwy o ran gyda digwyddiadau ym Mae Colwyn, yn arbennig Digwyddiadau'r Nadolig, Gŵyl y Pedwardegau a gorymdaith / cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi.

Dywedodd y Clerc wrth y Pwyllgor y byddai Helen yn hoffi creu Pwyllgor i Drefnu Gŵyl y Pedwardegau, er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn parhau i ffynnu, ac i gysylltu â thrigolion / mudiadau lleol. Roedd yr Aelodau yn hollol gefnogol o'r argymhelliad hwn. Fe nodwyd bod IMAGINE eisiau cymryd mwy o ran gyda threftadaeth Gŵyl Dewi Sant ac wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cais gan y Cyngor Tref am fod yn rhan o'r digwyddiadau sy'n arwain at yr Ŵyl yn 2020, efallai i gynnwys prosiect celf / treftadaeth gydag ysgolion lleol.

***Penderfynwyd gwahodd cynrychiolydd o IMAGINE i ymuno ag Is-Bwyllgor Goleuadau'r Nadolig.***

***Fe benderfynwyd ymhellach i gefnogi'r argymhelliad i greu Pwyllgor i drefnu digwyddiad Gŵyl y Pedwardegau a disgwyl am adborth pellach gan Grŵp Llywio IMAGINE parthed gweithgareddau / digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi.***

(iii)Cyflwynodd y Clerc ysgrif drafft ar gyfer disgrifiad Bae Colwyn.

***Penderfynwyd cymeradwyo'r ysgrif agoriadol yn amodol ar fan newidiadau (cystrawen a threfn) a gofyn i'r Clerc ei gyflwyno mor fuan ag sy'n bosibl.***

**473/18 Yr Adroddiad Blynyddol:**

***Penderfynwyd, yn amodol ar un fân newid ar dudalen 16, i dderbyn a chymeradwyo drafft terfynol Adroddiad Blynyddol 2018/19 i gael ei gyfieithu a'i argraffu.***

**474/18 CVSC:**

Cyflwynodd y Clerc hysbysiad am leoliadau mannau chwarae mynediad agored haf 2018. Fe nodwyd bu'r presenoldeb yn dda ar bob safle (cyfartaledd o rhwng 16.4 a 30 am bob sesiwn).

***Penderfynwyd cymeradwyo'r defnydd o'r un safleoedd ar gyfer cynlluniau chwarae 2019.***

**475/18 Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (CCLlGChC:**

Cyflwynodd y Clerc cofnodion drafft o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 12/4/2019. Wrth gyfeirio at eitem 5(1) ar yr Agenda, dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod y llythyr a anfonwyd gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi (CthEM) at yr Ysgrifennydd wedi cadarnhau, yn ei barn hi, bod y taliadau sylfaenol o £150 yn parhau i orfod mynd trwy PAYE (i gael eu trethu) oni bai i gais am eithriad treth cael ei gyflwyno a'i dderbyn. Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi anfon cais am eithriad nifer o fisoedd yn ôl, ond ni dderbyniwyd ateb hyd yn hyn.

***Penderfynwyd derbyn y cofnodion drafft ac aradrodd ar lafar y Clerc.***

**476/18 Gohebiaeth Arall:**

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol ar gael gan y Clerc ar gais:

a) Taflen Newyddion Cymdeithas Tramffordd Llandudno a Bae Colwyn.
b) Cofnodion cyfarfod Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn a gynhaliwyd ar 10.4.2019.

**477/18 Cynllunio:**

**a** Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy a welir yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn i gael eu hystyried.

***Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn yn unol â'r hyn a welir yn yr Atodlen honno.***

**b Penderfyniadau Cynllunio**

***Penderfynwyd derbyn a nodi'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBSC am y cyfnod 8/4/2019 hyd at 21/4/2019.***

**c** **Rhybudd o Apêl:**

Fe nodwyd y rhybudd o Apêl parthed 407 Ffordd Abergele, Hen Golwyn (Gorchymyn Gorfodaeth).

**478/18** **<u>Trwyddedau:</u>**

Cyflwynwyd y Ceisiadau am Drwyddedau a gofrestrwyd o 8/4/2019 - 26/4/2019 er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.35 pm

……………………… Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6:30PM ON TUESDAY 7TH MAY 2019, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY**

**PRESENT**: The Mayor, Cllr S Williams
Cllr G Baker (Chairman)
Cllrs: B Barton; N Bastow; D Bradley; G Campbell; C Matthews; M Jones;
M Worth.

**OFFICERS:** Mrs T Earley, Town Clerk and Mrs R Dudley, Assistant Clerk.

**226/18 Welcome and Apologies for Absence:**

The Chair welcomed members to the meeting and thanked the officers and members for their support during her term as Chair. Apologies for absence were received from Cllrs: C Brockley, J Pearson and M Tasker.

**227/18 Declarations of Interest**:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

**228/18 Minutes**:

***Resolved to approve and sign, as a correct record, the minutes of the last meeting, held on 9th April 2019, subject to one minor change to Min. 443/18(d): to change 'Poundland' to 'PoundWorld'.***

**229/18 Matters Arising from Previous Minutes:**

a) **Min.443/18(a)– Hesketh Road Bus Shelter**:

The Clerk updated the committee, informing members that the claim had still not been settled, despite a weekly phone call to request an update. It was noted that the case officer is now being replaced and the Clerk was asked to chase again next week.

**b) Min. 443/18(c) – Seating for Queen's Gardens:**

The Clerk gave a brief verbal update, confirming that the resident had been contacted to ask if a member could visit to discuss his request. An email response from the resident was received and considered. It was noted that he has made requests relating to more sociable seating in both Queens Gardens and outside the new Coed Pella building.

***Resolved that Cllr Worth contact the resident to discuss his enquiry and report back to the Clerk.***

***Further resolved to delegate authority to the Clerk, after liaising with Cllr Worth, to submit any follow-up request(s) to Conwy CBC.***

**Hwarae Ysgol Min. 450/18(f) – Replacement Local Development Plan Drop-in Session:**

No report was available, as none of the members present had been able to attend the session.

c) **Min 450/18(e)– Land at the former Colwyn Bay Civic Centre:**

The Clerk submitted details of the pre-application consultation regarding the former Civic Centre annexe/grounds (details of which had been tabled at the last meeting). Members noted the outline proposals for 19 dwellings and conversion of the annexe to 9 apartments and stated their disappointed in the proposed percentage of affordable housing (which appeared to be just 3 dwellings and 2 apartments).

***Resolved to submit concerns and request a greater ratio of affordable housing be considered for this previously publicly owned site.***

**230/18 <u>Conwy CBC</u>:**

a) **Ysgol T Gwynn Play area:**

The Clerk submitted information about the opening of a new adventure play area on land adjoining Ysgol T Gwynn, which was received and noted.

b) **IMAGINE Colwyn Bay:**

**(i)**The draft Minutes of the Steering Group held on 16th April 2019 were received and noted.
**(ii)** Events: The Clerk gave a verbal report on a meeting she had attended with Helen Jackson. The Imagine project wanted to get more involved with events in Colwyn Bay, particularly the Christmas Event, Forties Festival and St David's Day parade/concert.

The Clerk informed the Committee that Helen would like to form a Forties Organising Committee to ensure that the event continues to thrive and involves local residents/organisations more. Members fully supported this recommendation. It was also noted that IMAGINE wanted to get more involved with the heritage around St David's Day and had responded positively to the request from the Town Council regarding involvement in the lead-up to the event in 2020, possibly to include an arts/heritage project with local schools.

***Resolved to invite a representative from IMAGINE to join the Christmas Lights Sub-Committee.***

***Further resolved to support the recommendation that a committee be formed to***
***organise the Forties event and await further feedback from the IMAGINE Steering Group regarding the St David's Day activities/event..***

(iii) The Clerk submitted the draft text for the Colwyn Bay description.

***Resolved to approve the introductory text, subject to some minor amendments (sentence construction and order) and request that the Clerk submits it as soon as possible.***

**231/18 Annual Report:**

***Subject to a minor amendment on page 16, it was resolved to receive and approve for translation/printing the final draft of the Annual Report for 2018/19.***

**232/18 CVSC:**

The Clerk submitted notification of the locations of the 2018 summer open access play schemes. It was noted that attendance had been good at each site (averaging between 16.4 and 30 per session).

***Resolved to approve the use of the same locations for the 2019 play schemes.***

**233/18 N&MWALC:**

The Clerk submitted the draft Minutes of the meeting held on 12/04/2019. With regard to Agenda item 5(1), the Clerk informed members that the letter sent by HMRC to the Secretary had, in her opinion, confirmed that the basic payments of £150 still had to go through PAYE (and be taxed) unless a tax exemption had been applied for and received (each Council must do this separately). The Clerk confirmed that an application for exemption had been submitted several months ago, but no response had been received, to date.

***Resolved to receive the draft minutes and verbal report from the Clerk.***

**234/18 Other Correspondence:**

It was noted that the following items are available on request from the Clerk:
a) Llandudno & Colwyn Bay Tramway Society Newsletter.
b) Minutes of Old Colwyn Resident's Association held on 10/04/2019.

**235/18 Planning:**

**a)** The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC, as detailed on Schedule 'A' attached.

***Resolved to submit observations on these applications, as detailed in that Schedule.***

**b) Planning Decisions*:***

***Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC for the period 08/04/19 – 21/04/2019.***

**c) Notice of Appeal:**

A notice of Appeal in respect of 407, Abergele Road, Old Colwyn (enforcement notice) was noted.

**451/18 <u>Licensing</u>:**

The Licensing applications registered from 8/04 – 26/04/19 were submitted, for information.

The meeting closed at 7.35p.m.

……………………. Chairman